



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan
LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER, MEDI'R 22ain 2021**

Presennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Gyng. Christopher Jones: Maeres Penny Andow; Cyng. Laura Fielding; Cyng. Carol Gell; Cyng. Andrew Hinchliff; Cyng. Delohne Merrell; Cyng. Iolo Kars Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Gareth Wyn Jones; Cyng. Christine Roberts

88. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

89. Ymddiheuriadau am absenoldeb – Cyng. Rob Jewell; Cyng. Claire Hughes; Cyng. Nia Jones

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

90. Datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Fe dderbyniwyd mater cynllunio hwyr. Bu i'r Cyng. A Hinchliff ddatgan ei rôl ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond bu iddo gadarnhau bod modd iddo aros yn y cyfarfod cyhyd â'i fod yn ymatal rhag cynnig sylwadau am y mater.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

91. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Roedd swyddog CBSC yn methu â mynychu'r cyfarfod i drafod maes parcio'r promenâd a bydd y swyddog yn mynychu'r cyfarfod nesaf ar Hydref y 13^{eg}. Bu inni dderbyn datganiad dros e-bost gyda gwybodaeth dros dro:

1. Bydd y Rheolwr Risg Llifogydd a Seilwaith yn cysylltu gyda'r Cyngor Tref i sôn am y diweddaraf ynghylch y Prosiect Amddiffyn Arfordiroedd.
2. Mae disgwyl y bydd y Contractwr yn cychwyn ar y gwaith trwsio yn y Maes Parcio'r wythnos hon. Fe gaiff y Cyngor Tref eu diweddarau am y broses.

Doedd dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

92. Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod Medi'r 1^{af} 2021 a'r rhestr weithrediadau cyfredol

Roedd y cofnodion wedi'u rhannu dros e-bost eisoes ac wedi'u derbyn wedi'u darllen.

Eitem 80 Troli Cyfryngau – Dydy'r gwaith heb ddatblygu oherwydd diffyg cyflenwad. Caiff cyfarfodydd y Cyngor Tref eu cynnal ar ZOOM nes caiff y broblem ei ddatrys.

Eitem 82:25 Soniwyd bod adroddiadau gan y cyfryngau wedi awgrymu nad oes llawer o dân gwyllt ar gael eleni ac fe gaiff nifer o ddigwyddiadau eu heffeithio yn sgil hyn.

Eitem 77:4 Meinciau cyhoeddus Clerc i drefnu cyfarfod Pwyllgor Amgylcheddol i drafod y meinciau, y diffibriliwr a chyfarpar / arwyddion diogelwch. Yr holl randdeiliaid i dderbyn gwahoddiad.

Cynigwyd gan y Cyng. A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng. D Merrell

Pawb yn gytûn Penderfynwyd derbyn a chofnodi

Dyma'r rhestr weithrediadau a drafodwyd:

Eitem 2. Hysbysiad adolygu parcio yn Llwyn Ysgaw – Mae'r Cyngor Tref wedi cytuno ar y newidiadau eisoes yn sgil pryderon gan y trigolion am ddiogelwch yn yr ardal. Mae trigolion eraill wedi cysylltu gyda'r Cynghorydd

Sir gan leisio'u pryderon am golli manau parcio. Mae'r Cynghorydd Sir wedi gofyn i CBSC am gyfarfod safle i drafod y mater.

Eitem 5 Mae'r prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac mae dŵr ar gael yn y fynwent i'w ddefnyddio ar lan y beddau.

Eitem 21 Caiff rhywfaint o waith ei gyflawni ar y safle yn ystod yr wythnosau nesaf.

Eitem 27 Mae'r Clerc yn mynd rhagddi gyda'r prosiect ac fe fydd yn trefnu cyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf.

Action and information list for 22nd September 2021 Llanfairfechan Town Council Covid-19 Alert Level 0 has been announced				
Item	Action		Date	ERF Ref
1	Playground equipment	CCBC will fit soon. Clerk to organise a photo shoot to celebrate	Email sent	17/09/2021
2	Gorwel parking	progressing through legal - all queries should be referred to CCBC	Email sent	03/08/2021
3	Nant y Pandy Car park	This is now progressing through legal and received update on 23rd August	Email PV	
4	Promenade car park	CCBC officer attending the meeting 22nd September	Email sent	31/08/2021
5	Cemetery water	Meeting booked between CCBC and Dwr Cymru Tuesday 21st September	Email sent	31/08/2021
7	Plas Menai health visitors & Family Team	All going well - need to discuss room charges at meeting	Email JW	26/08/2021
8	Website translation	Formal launch still needed – suggest September	on hold	on hold
9	LDP and House builds query	CCBC Engagement plan being developed. Held up due to Covid-19	on hold	on hold
11	Flytipping at Station Road car park	site meeting booked for 27th September CCBC Officer attending	email	13/09/2021
12	A55 junction project	Public enquiry now postponed	Email sent	16/09/2021
13	Transforming Towns funding	Clerk s meeting on 22nd September at 6pm - report to be given		
14	Staffing Review	Staffing Committee have agreed to action changes in wages from october	meeting	09/09/2021
15	Bus Shelter doctors surgery	Clerk has spoken to PTC and we will be contacted when needed	Phone	05/08/2021
16	Ysgolion traffic concerns	Headteacher has reported our complaints to parents	email sent	05/08/2021
17	Station road traffic concerns	Concerns are still being raised by resident response received from parking	Email sent	28/08/2021
18	Llanfairfechan Christmas Festival	On Agenda for 22nd September		
19	Pen Dalar Cartrefi	AGM took place report at meeting		
20	Democracy Grant	Grant offered for reimbursement of ZOOM costs. Clerk has applied	email sent	24/08/2021
21	Nant y Coed	Plans are prepared but CCBC awaiting the go ahead from NRW	phone	31/08/2021
23	Digital Sign damage	Loss Adjuster phone meeting on 22nd September - report at meeting	Email sent	17/09/2021
24	Firework event	Fireworks provisionally booked for 5th Nov. Query about silent ones sent	phone	05/08/2021
25	Remembrance Event	meeting took place 14th September further discussion at meeting	phone	31/08/2021
26	Festive event and solar trees	information to be shared at the meeting	email AMc	30/08/2021
27	Defib and safety equipment	Ratification of quote at the meeting	email sent	30/08/2021

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

93. Trafod a chymeradwyo digwyddiadau cymunedol sydd ar y gweill

1. Pwmpenni Calan Gaeaf. Rydym wedi anfon deunydd marchnata at deuluoedd eisoes ond mae pryderon ynghylch cyflenwadau. Fodd bynnag, soniwyd bod modd i Nood Food ein cynorthwyo i gaffael pwmpenni gan eu cyflenwr cyfanwerthol. Mae hyn yn rhyddhad mawr gan roedden ni'n dechrau meddwl na fyddai modd inni gael gaffael ar 100 o bwmpenni. Byddwn yn rhannu'r pwmpenni rhwng 10yb a 12yp ar ddydd Llun, Hydref y 25ain ac rydym yn gobeithio y byddwn yn rhannu'r holl bwmpenni yn ystod y cyfnod hwnnw.

2. Noson Tân Gwylt

Rydym wedi trefnu'r digwyddiad dros dro ar gyfer Tachwedd y 5ed gan fod y llanw ar ei orau'r diwrnod hwnnw. Bu i'r aelodau godi pryderon difrifol am reoli'r dorf yn y digwyddiad arfaethedig hwn. Bu trafodaeth faith am y nifer o achosion Covid-19 yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd a'r dryswch ynghylch y mesurau i atal lledaenu'r firws. Mae hefyd pryder am dân gwylt distaw y gofynnwyd amdany'n nhw yn y cyfarfod diwethaf. Soniodd ein cyflenwr na fyddai tân gwylt distaw yn effeithiol iawn ac mae'n bosib y byddai'n arwain at drigolion yn prynu tân gwylt gwell. Felly buasai'r rheswm dros y digwyddiad cymunedol yn ddibwynt yn y pendraw. Cytunwyd y byddai penderfyniad terfynol am y digwyddiad a'r tân gwylt yn y cyfarfod nesaf i ganiatáu amser i asesu'r sefyllfa Covid-19.

3. Sul y Cofio

Cafodd tri dewis eu trafod yn y cyfarfod partneriaeth blaenorol:

a. Gellir cynnal y gwasanaeth fel arfer gan estyn gwahoddiad i'r holl drigolion fynychu'r orymdaith a'r gwasanaeth ger y senotaff. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch asesu risg yn unol â'r rheolau cyfredol ynghylch Covid-19 a byddai'n anodd rheoli'r dorf gan fod 200+ o bobl yn mynychu fel arfer. Fe awgrymwyd y dylid gosod y gazebo ger lan yr afon fel bod y bobl dros ben yn sefyll ar lwybr yr eglwys yn hytrach na'r ffordd er mwyn lleihau'r risg o'r dorf yn sefyll ar y ffordd. Mae'n rhaid gweithredu cau'r ffyrdd ar unwaith er mwyn

sicrhau eu bod ar y system. Fodd bynnag gallwn ond rhoi cynlluniau dros dro ar waith oherwydd y sefyllfa newidiol ynghylch covid-19.

b. Gellir cynnal y gwasanaeth gan estyn gwahoddiad i gludwyr y torchau'n unig. Buasai'n haws rheoli hyn a buasai'n fwy diogel o ystyried sefyllfa gyfredol Covid-19 gyda'r nifer o achosion yn cynyddu. Gallwn osod y torchau yn ystod yr wythnos sy'n arwain at Sul y Cofio er mwyn sicrhau nad oes torfeydd yn ymgynnull.

c. Gallwn ail-gynnal proses y llynedd lle bu'r Maer a'r Dirprwy Faer yn gosod torchau dros fideo. Bu i Gyngor Tref Conwy ffilmio'r digwyddiad ac roedd yn boblogaidd dros ben:

<https://www.facebook.com/iddathlullanfairfechancebrates/videos/2819849158246963>

Cytunwyd y byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol yn y cyfarfod nesaf i ganiatáu digon o amser i asesu'r sefyllfa Covid-19.

4. Penwythnos y Nadolig

Rydym yn bwriadu cynnal y digwyddiad ar Dachwedd yr 20^{fed}/21^{ain}. Dyma'r cynlluniau hyd yn hyn:

Tachwedd yr 20^{fed}

- Marchnad Bwyd a Chrefftwy'r y tu allan i'r Neuadd Gymunedol – bydd angen cytuno ar gau'r ffordd. Bydd cyfyngiadau Covid-19 ar waith gyda system unffordd a byddwn hefyd yn rheoli'r niferoedd yn yr ardal.
- Ffair Nadolig Cymunedol yn y Neuadd Gymunedol sy'n gyfle i grwpiau cymunedol gynnal stondin i godi ymwybyddiaeth a chodi arian. Bydd cyfyngiadau Covid-19 ar waith gyda system unffordd a byddwn yn rheoli'r niferoedd yn y neuadd.
- Ffair fach – rydym yn ymchwilio ymarferoldeb hyn a byddwn yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

Tachwedd yr 21ain

- Groto Siôn Corn y Clwb Rotari gan gydymffurfio gyda chyfyngiadau Covid-19, yn debyg i'r digwyddiad gafodd ei gynnal yn 2020.

Mae'r cynlluniau ar y gweill a chaiff ceisiadau rheoliadol eu rhoi ar waith yn ystod yr wythnosau nesaf. Y Clerc a Swyddog y Prosiect i fynd rhagddi gyda'r cynlluniau ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf. Cynghorwyr i e-bostio unrhyw fanylion am gynhyrchwyr bwyd lleol a fyddai'n dymuno bod ynghlwm â'r digwyddiad.

94. Trafod y prosiect Llanfairfechan Cynaliadwy a datblygiad y Bartneriaeth Cynllunio Cymunedol

Bu'r digwyddiad Wythnos Fawr Werdd ar ddydd Llun yr 20fed yn llwyddiant ysgubol a bu i drigolion a chynghorwyr ddod ynghyd i gynnig gweithgareddau cymunedol gan amlygu'r angen i fynd i'r afael â newid mewn hinsawdd. Yn dilyn y cyfarfod, bu i dri phreswlydd newydd gynnig ymuno gyda'r bartneriaeth cynllunio cymunedol. Soniwyd y bu i'r arolwg cymunedol diweddar ddangos nad oes llawer o gefnogaeth o ran cynllunio cymunedol o dan arweiniad y preswylwyr. Mae cyflwyniad am hyn ar gael erbyn hyn a byddwn yn ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf. Soniwyd bod angen i'r grŵp ymwneud gyda phobl sy'n meddu ar ystod eang o sgiliau a safbwyntiau. Cytunwyd hefyd y dylid gofyn i ymgeiswyr gyflwyno ysgrif-ddarlun o'u hunain gan grybwyll pa sgiliau y gallan nhw eu cyfrannu at y grŵp. Dywedodd y Cynghorwyr eu bod yn dymuno ffurfio grŵp sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n cynrychioli'r gymuned yn ei chyfanrwydd. Soniwyd hefyd bod angen i'r grŵp adrodd yn ôl i'r Gyngor Tref pob mis fel gofyniad yn sgil derbyn cyllid gan y prosiect Byw'n Dda Living Well.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

95. Trafod a chymeradwyo dyfynbrisiau ar gyfer cyfarpar a throli amlgyfrwng – fel y trafodwyd eisoes, dydy'r gwaith heb ddatblygu oherwydd diffyg cyflenwad

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

96. Derbyn a chymeradwyo taliadau ar gyfer Mehefin 2021

Cynigwyd gan y Cyng. D Merrell Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff
derbyn a chofnodi

Pawb yn gytûn

Penderfynwyd

97. Trafod materion cynllunio

Cafodd dau fater cynllunio hwyr eu cyflwyno, a phenderfynwyd y byddai'r Gyngor Tref yn eu dwyn i ystyriaeth wrth gyflwyno'r cynlluniau ar y sgrin.

0/48917 Glasfryn Ffordd Dyffryn Llanfairfechan LL33 0SE

Dymchwel estyniad cefn ac adeiladau allanol ac adeiladu estyniad cefn newydd sydd rywfaint yn fwy er mwyn gosod man lifft newydd, cegin mwy, en-suite i'r rheiny â nam corfforol a digon o le i symud cadair olwyn. Mae angen sicrhau bod digon o le i gadair olwyn ar gyfer yr holl ystafelloedd gwely ar y llawr 1af. Sylwodd y Cynghorwyr bod y cynlluniau'n debyg i'r strwythur canlynol a bod y newidiadau i gynorthwyo gyda hygyrchedd. Mae'r Cynghorwyr yn disgwyl i'r ymgeisydd gydymffurfio gyda chynghor swyddog cynllunio CBSC.

0/48920 23 Parc Henblas Llanfairfechan LL33 ORW

Cael gwared ar 1 x coeden dderw ac 1 x coeden leim

Gofynnodd y Cyngorwyr i'r swyddog coed ystyried y cais hwn. Mae'n ymddangos nad oes cyfiawnhad digonol i gael gwared ar y goeden dderw ac mae'r Cyngorwyr yn disgwyl i'r Cyngor gydymffurfio gydag unrhyw arweiniad.

Penderfynwyd derbyn a chofnodi

98. Derbyn gohebiaeth – Anfon yr holl ohebiaeth dros e-bost yn ystod y pandemig.

99. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd eraill

1. Cyfarfod Blynyddol Pen Dalar – bu'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, Medi'r 14^{eg} ac mae'r cofnodion wedi'u dosbarthu. Fel y disgwyl, dim ond un aelod o'r pwyllgor oedd yn bresennol a ni chafodd aelodau newydd eu hadnabod felly'r oedd yn anochel y buasai'r pwyllgor yn dod i ben. Mae'r Banc Bwyd wrthi'n trafod derbyn tenantiaeth yr adeilad gyda CBSC. Gofynnwyd i'r Clerc fynychu'r ganolfan i lunio rhestr o'r eitemau a chymryd darlleniad y mesurydd. Bydd yn cyflawni hyn am 10yb ar ddydd Gwener y 24^{ain}.

2. Cyfarfod y Clerc gyda'r Rheolwr Busnes am y Feddygfa

Ymwelwyr Iechyd yn y Neuadd Gymunedol – mae'r prosiect yn llwyddiannus ac mae'r teuluoedd wedi arfer dod i'r neuadd erbyn hyn. Dydy'r tîm ddim yn talu ar hyn o bryd ond mae'r pwyllgor yn ystyried beth fyddai'n digwydd yn yr hirdymor. Anfonwyd e-bost i holi oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyllid i logi'r neuadd. Soniwyd bod y Cyngor Tref a'r pwyllgor eill dau yn dymuno gweld y gwasanaeth yn parhau yn y neuadd felly maen nhw'n fodlon trafod y telerau.

Soniodd y Cyngorwyr bod nifer o breswylwyr wedi sôn am drafferthion gyda hygyrchedd yn ymwneud â'r feddygfa ac fe gafodd hyn ei rannu gyda'r Rheolwr Busnes. Mae'r feddygfa yn derbyn llawer o adborth cadarnhaol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch eu dewisiadau o ran hygyrchedd – systemau ffôn, eConsult a'r rhaglen MySurgery felly mae'r system yn effeithiol i rai o'r cleifion. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y lleiafrif bregus. Mae'r feddygfa'n fodlon i'r cyngorwyr weithredu fel eiriolwyr ac mae'r Clerc wrthi'n llunio ffurflen adrodd a allai fod o help. Soniwyd y byddai'r ffurflen ar gyfer adrodd am drafferthion gyda hygyrchedd yn unig ac nid materion meddygol. Cytunwyd y dylai'r Cyngor Tref gyflawni hyd eithaf eu gallu i helpu'r preswylwyr i fanteisio ar y gwasanaeth yn y ffordd sy'n fwyaf addas iddyn nhw. Hefyd fe ddylid cydnabod bod rhai trigolion yn fregus gan na allan nhw ymdopi gyda thechnoleg. Mae'r feddygfa hefyd yn awyddus i fynd i'r afael gydag unrhyw broblemau gan y cleifion ac maen nhw'n gofyn i'r cleifion roi gwybod iddyn nhw'n uniongyrchol am unrhyw broblemau er mwyn iddyn nhw eu hymchwilio. Cafodd ei bwysleisio nad oedd polisi ynghylch cael gwared ar gleifion sy'n cynnig adborth. Mae yna bolisi dim goddefgarwch yn ymwneud â cham-drin y staff ar lafar ac yn gorfforol ac mae hyn er mwyn diogelu'r tîm. Fodd bynnag soniodd y Cyngorwyr bod rhai preswylwyr yn dweud nad ydy'r feddygfa'n mynd i'r afael gyda'u pryderon. Felly fe benderfynwyd y dylai'r Cyngor Tref geisio sicrhau caiff y preswylwyr leisio'u barn. Y Clerc i lunio'r ffurflen a gwirio'r cynnwys gyda'r feddygfa cyn ei rhoi ar brawf.

88. Derbyn pryderon a chanmoliaethau

1. Fe estynnwyd diolch i holl drefnwyr a chyfranwyr y digwyddiad Wythnos Fawr Werdd ac fe soniwyd ei fod yn ddigwyddiad cymunedol gwerth chweil. Diolch yn fawr i'r preswilydd, Katie Gibbs am awgrymu'r digwyddiad a'i arwain.
2. Soniodd Gynghorydd am weddillion ar yr afon ac mae disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru fynd ati i gael gwared arnyn nhw'n fuan. At hyn, fe soniwyd am y difrod i ymylon palmant y man glaswellt ar y rhodfa. Mae pryderon diogelwch difrifol ynghylch cerbydau'n parcio ar y glaswellt ac fe gafodd hyn ei rannu gyda CBSC.
3. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer y senotaff gyda phrosiect llechi a pheintio pabiau ar y gweill.
4. Ymholiad ynghylch y lloches ger y pwll cychod. Cafodd y mater ei gyfeirio at CBSC a bu iddyn nhw gytuno bod angen gosod meinciau newydd yn lle'r hen rai. Y Clerc i e-bostio ystadau i holi oes modd i'r Cyngor Tref ffurfio partneriaeth i ddatblygu'r ardal.
5. Soniwyd am bryderon ynghylch gweithdrefn yr ysgol ynghylch gwasanaeth Monitro ac Olrhain ac mae'n ymddangos bod pobl yn penderfynu ar yr union broses ar sail unigol yn hytrach na fel Sir gyfan. Bu i CBSC gynnal cyfarfodydd am y pryderon ac mae teimlad nad ydy'r niferoedd o dan reolaeth.

6. E-bost am y Milwr Mud a'r murlun ger y senotaff. Y Clerc i gasglu mwy o wybodaeth ac adrodd yn ôl.
7. Bu pryder ymysg preswylwyr yr ardal ynghylch ymweliad gan wleidydd o San Steffan, Jacob Rees Mogg, i fferm leol. Soniwyd nad oedd hyn yn wahoddiad personol. Bu'r ymweliad yn sgil rhan o brosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Prydain i Gymdeithas Porwyr gefnogi treftadaeth Eryri. Doedd gan y perchnogion na rôl y Cynghorydd Tref unrhyw beth i'w wneud efo hyn a bu'r driniaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn hynod annerbyniol.
8. Mae sesiynau archeolegwyr ar lethrau Dinas fel rhan o'r Prosiect Carneddau. E-bostiwch carneddau@eryri.llyw.cymru am fwy o fanylion.
9. Gofynnwyd cwestiwn dros e-bost ynghylch gosod canopi newydd yn lle'r hen un sydd wedi pylu yn yr haul. Awgrymwyd prynu gorchuddion gyda chefnidir gwyn fel nad ydyn nhw'n pylu – pawb yn gytûn.
Clerc i drefnu'r archeb.

89. Cloi am 8:55yh a'r cyfarfod nesaf:

Cyfarfod Llawn y Cyngor Tref, nos Fercher, Hydref y 13eg 2021 am 7yh yn Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan – Siambr y Cyngor. Bydd rheoliadau Covid-19 ar waith.

Gallwch gysylltu gyda'r Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol, Jayne Neal gydag unrhyw ymholiad ar ddydd Llun, Mawrth a Mercher o 9yb tan 12yp ar 01248681697 neu gallwch e-bostio jayne@llanfairfechan.net